OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 No. 1806

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

RHAN 7

COFNODION AC ATEBION

Cofnodion cynhyrchydd a chofnodion cludo

Atebion chwarterol traddodai ac atebion hunanwaredu chwarterol

53.—(1) Rhaid i bob traddodai roi ateb, y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel ateb chwarterol y traddodai, i'r Asiantaeth o wybodaeth sy'n ymwneud â holl lwythi gwastraff peryglus a dderbyniwyd ganddo yn unrhyw chwarter yn unol â pharagraff (4).

(2) Rhaid i'r ateb gynnwys—

(a) llwythi a wrthodwyd;

(b) gwastraff peryglus a draddodwyd drwy biblinell os yw rheoliad 41 yn gymwys; ac

(c) yn achos amlgasgliadau, pob llwyth unigol a gasglwyd.

(3) Mewn unrhyw chwarter os gwaredir gwastraff peryglus drwy ei ddodi yng nghwrtil y fangre lle'i cynhyrchir, rhaid i'r cynhyrchydd roi ateb mewn perthynas â'r chwarter hwnnw o wybodaeth sy'n ymwneud â'r dyddodi i'r Asiantaeth, yn unol â pharagraff (4).

(4) Rhaid i ateb a roddir yn unol â'r rheoliad hwn mewn perthynas â chwarter gael ei dychwelyd dim hwyrach na'r amser a bennir yn y golofn ar y llaw dde yn y tabl isod mewn perthynas â'r chwarter a bennir yn y golofn ar y llaw chwith:

Y chwarter pan dderbyniwyd, neu pan ddyddodwyd y gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd	**Yr ateb i ddod i law'r Asiantaeth ddim hwyrach na**
Diweddu ar 31 Mawrth	30 Ebrill yn yr un flwyddyn pan fo'r chwarter yn digwydd
Diweddu ar 30 Mehefin	31 Gorffennaf yn yr un flwyddyn pan fo'r chwarter yn digwydd
Diweddu ar 30 Medi	31 Hydref yn yr un flwyddyn pan fo'r chwarter yn digwydd
Diweddu ar 31 Rhagfyr	31 Ionawr yn y flwyddyn nesaf ar ôl i'r chwarter ddigwydd

(5) Caiff yr Asiantaeth ragnodi fformat ar gyfer rhoi atebion o dan y rheoliad hwn ac, os rhagnodir fformat am y tro yn unol â'r paragraff hwn—

(a) rhaid i'r Asiantaeth gyhoeddi'r fformat ar ei gwefan ac mewn unrhyw fodd arall yr ystyria'n briodol i hysbysu personau y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno atebion o'r fath iddynt o'i chynnwys; a

(b) nid yw'r Asiantaeth yn gorfod barnu bod ateb wedi'i roi yn briodol at ddibenion y Rheoliadau hyn oni chafodd ei roi yn y fformat hwnnw, neu mewn fformat sylweddol o ran effaith.

(6) Os bydd yr Asiantaeth yn rhagnodi ffi sy'n daladwy gan draddodai drwy gynllun codi tâl a wnaed o dan adran 41 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel dull o adennill ei chostau a dynnwyd wrth iddi gyflawni swyddogaethau o ran y llwythi sydd wedi'u cynnwys mewn atebion chwarterol y traddodai, caiff traddodai adennill o draddodwr unrhyw ffioedd a dalwyd o dan y Rheoliadau hyn o ran llwythi a anfonwyd gan y traddodwr hwnnw.